# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 3 Mawrth 2025

Amser: 13.08 - 14.56

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/14863

# O bell

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Mike Hedges AS (Cadeirydd)<br>Alun Davies AS<br>Laura Anne Jones AS<br>Adam Price AS |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Gerallt Roberts (Ail Glerc)<br>Sarah Sargent (Ail Glerc)<br>Kate Rabaiotti (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Ymddiheurodd Laura Anne Jones AS am Eitemau 1 i 7.

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 2 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i’r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

### 2.1 SL(6)583 - Rheoliadau Cwmnïau RTM (Erthyglau Enghreifftiol) (Cymru) (Diwygio) 2025

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon arno.

## 3 Offerynnau sy’n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i’r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

### 3.1 SL(6)584 - Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2025

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad arno i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

### 3.2 SL(6)588 - Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) ac (Asesiad Ariannol) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2025

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ynghyd ag ymateb Llywodraeth Cymru, a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 3.3 SL(6)585 - Rheoliadau Bwyd (Hyrwyddo a Chyflwyno) (Cymru) 2025

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad arno i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

## 4 Offerynnau sy’n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i’r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 - trafodwyd eisoes

### 4.1 SL(6)568 - Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2025

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth â'r Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch.

### 4.2 SL(6)579 – Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Graddau Arolygu) (Cymru) 2025

Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru.

### 4.3 SL(6)582 - Rheoliadau'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig 2025

Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru.

## 5 Cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol

### 5.1 Gohebiaeth oddi wrth Lywodraeth Cymru: Cyfarfodydd grwpiau rhyngweinidogol

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r cyfarfodydd a ganlyn: Y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Busnes a Diwydiant; y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Drafnidiaeth; y Grŵp Rhyngweinidogol ar Sero Net, Ynni a Newid Hinsawdd; a'r Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol.

## 6 Papurau i'w nodi

### 6.1 Gohebiaeth i'r Pwyllgor Busnes: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 6) ar y Bil Dŵr (Mesurau Arbennig)

Nododd y Pwyllgor ei lythyr at y Pwyllgor Busnes.

### 6.2 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 7) ar y Bil Dŵr (Mesurau Arbennig)

Nododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 7) ar y Bil Dŵr (Mesurau Arbennig).

### 6.3 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) ar Fil Ynni Prydain Fawr:

Nododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) ar Fil Ynni Prydain Fawr.

### 6.4 Gohebiaeth i’r Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru)

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig.

### 6.5 Gohebiaeth rhwng y Weinyddiaeth Gyfiawnder a’r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol: Gwahoddiad i sesiwn graffu gyffredinol ar y cyd gyda Gweinidogion ar gyfiawnder troseddol

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth rhwng y Weinyddiaeth Gyfiawnder a’r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

### 6.6 Gohebiaeth oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a’r Gweinidog dros Gyflawni: Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru)

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a’r Gweinidog Cyflawni.

### 6.7 Gohebiaeth oddi wrth y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant: Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Iechyd Meddwl

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth oddi wrth y Gweinidog dros Iechyd Meddwl a Llesiant a chytunwyd i ystyried adroddiad drafft mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Derbyniwyd y cynnig.

## 8 Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru): Adroddiad drafft

Trafododd y Pwyllgor ei adroddiad drafft a chytunodd i ystyried adroddiad diwygiedig mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 9 Cytundebau rhyngwladol: Adroddiad drafft

Cytunodd y Pwyllgor ar ei adroddiad drafft.

## 10 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Hawliau Rhentwyr: Adroddiad drafft

Cytunodd y Pwyllgor ar ei adroddiad drafft.

## 11 Blaenraglen Waith

Cytunodd y Pwyllgor ar lythyrau drafft at y Prif Weinidog, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, a Changhellor Dugiaeth Caerhirfryn.

## 12 Nodyn briffio ar gyfer yr Aelodau ar brosesau deddfwriaethol y Senedd

Cafodd y Pwyllgor sesiwn friffio ar brosesau deddfwriaethol y Senedd a chytunodd i ystyried y mater ymhellach mewn cyfarfod yn y dyfodol.